

HINSAWDD HURT

Ffeithiau Hinsawdd Hurt

Gellir defnyddio'r ffeithiau fel dilyniant ar ôl chwarae'r gêm *Coed a Simneiau* neu eu defnyddio ar eu pen ei hun. Gallwch lawr lwytho rhagor o ffeithiau oddi ar www.christianaid.org.uk/learn

- Gosodwch y ffeithiau mewn grwpiau o dan benawdau fel : *arbed, ailgylchu, aildefnyddio, arbed dŵr, arbed ynni, lleihau CO₂*. Gallwch hefyd feddwl am eich penawdau eich hun.
- Dewiswch ffaith. Gan weithio mewn parau neu grwpiau bychain, meddyliwch am ffyrdd i ddweud wrth weddill yr ysgol am y ffaith yr ydych wedi ei dewis. P'un yw'r ffordd orau i wneud hyn yn eich tyb chi? Gallech berfformio drama neu gyflwyno gwasanaeth, neu wneud poster, cyflwyniad PowerPoint neu hyd yn oed ffilm.
- Gwnewch siart sy'n olrhain dros wythnos eich gweithgareddau sy'n gollwng CO₂, e.e. teithiau car, oriau yn gwylio teledu, pa mor hir y buoch yn trydanu eich ffôn symudol, ayyb. Plotiwch eich canlyniadau ar graff i ddangos eich ôl troed carbon.
- Cynlluniwch arolwg ymhlith eich cyd-ddisgyblion i ddarganfod pa mor gyfeillgar i'r amgylchedd y maen nhw.

A wyddech chi bod un fflysh o'r tŷ bach* yn defnyddio cymaint o ddŵr ag y mae rhai pobl mewn rhannau o Affrica ac Asia yn ei ddefnyddio mewn diwrnod i olchi, glanhau, coginio ac yfed?

*rhyw 10 litr o ddŵr

(Ffynhonnell : Environment Agency/Water Supply and Sanitation Collaborative Council (WSSCC))

Mae'r sbwriel y byddwn ni yn ei anfon i'r tip yn cael ei roi mewn claddfeydd, gan gynhyrchu rhagor o nwyon niweidiol. A wyddech chi bod pob person yn y DG yn taflu i ffwrdd eu pwysau corff eu hunain mewn sbwriel bob saith wythnos?

(Ffynhonnell : Waste Watch)

A wyddech chi, trwy hedfan i fan pell fel Florida, y byddwch yn gollwng tua 1 tunnell o CO₂ am bob taith awyren?

(Ffynhonnell : Climate Care)

A wyddech chi bod dŵr llif yn medru mynd i mewn i ffynhonnau a llygru dŵr yfed? Mae yfed dŵr budr yn gwneud pobl yn sâl iawn. Mae tua 6,000 o blant yn marw bob dydd am eu bod yn yfed dŵr budr a heb doiledau iawn.

(Ffynhonnell : www.wateraid.org.uk)

A wyddech chi bod arbenigwyr yn credu y dylem leihau ein hallyriant o CO₂ i ddim ond 2 dunnell y person y flwyddyn i helpu'r blaned? Gallai hyn fod yn anodd i ni, ond dim ond 0.3 tunnell mai person yn Bangladesh yn ei gynhyrchu. Yn Nicaragua, mae'n ddim ond 0.7 tunnell a dim ond 0.1 yn Mali!

(Ffynhonnell : Adroddiad Datblygiad yr UNDP 2006)

I helpu i dorri i lawr ar CO₂, mae angen i ni brynu llai o bethau. Trwy arbed ac aildefnyddio rydym yn anfon llai o bethau i'r tipiau sbwriel a bydd llai o nwyon niweidiol yn cael eu gollwng i'r awyr.

A wyddech chi bod plannu coed yn helpu i arbed y pridd rhag mynd yn wael ac yn atal y tir rhag troi yn anialwch?

Gallwch helpu'r amgylchedd trwy ddefnyddio bylbiau golau sy'n arbed ynni yn eich cartref – ac arbed arian!

Mae troi'r gwres i lawr o dim ond un radd yn arbed 240kg o CO₂ y flwyddyn. Byddai'n cymryd wyth coeden i amsugno'r faint hyn o CO₂!

(Ffynhonnell : National Consumer Agency)



HINSAWDD HURT

Mae'n gwneud synnwyr i ddefnyddio ynni'r haul i gynhyrchu trydan – yn enwedig mewn gwledydd heulog iawn! A wyddech chi bod Senegal yn un o wledydd mwyaf heulog y byd, gyda mwy na 3,000 o oriau o heulwen y flwyddyn?

(Ffynhonnell : UNESCO)

Gellir defnyddio deunydd wedi ei ailgylchu i wneud pob math o bethau. A wyddech chi y gall 25 potel diod feddal dwy litr gael eu defnyddio i wneud siaced 'fleece'?

(Ffynhonnell : WRAP)

Mae cyfarpar trydan sydd ar 'standby' yn dal i ddefnyddio ynni. Mae gan y tŷ cyffredin 12 cyfarpar trydan ar standby. Mae'r ynni yna yn ychwanegu at eich ôl troed carbon. Trowch nhw i ffwrdd – ac arbedwch arian hefyd!

Mae teithiau car byr yn allyrru mwy na 2kg o CO₂ y siwrne. Felly mae cael eich gyrru i'r ysgol ac yn ôl mewn blwyddyn yn creu 760kg o CO₂!

(Ffynhonnell : I-Count – cymerir siwrne fer i fod yn llai na 3 milltir)

Gallwch arbed hyd at bedwar litr o ddŵr trwy droi'r tap i ffwrdd tra'n brwsio eich dannedd.

Cytundeb a arwyddwyd gan 166 o wledydd yw Datganiad Kyoto. Cytunodd pob gwlad i dorri lawr ar eu nwyon tŷ-gwydr. Allwch chi ddarganfod pa wledydd sydd wedi arwyddo?

Bydd pob un ohonom yn defnyddio rhyw 134 o fagiau plastig bob blwyddyn. Mae eu gwneud yn defnyddio ynni sydd yn allyrru llawer o CO₂. Ac mae'r biliynau o fagiau plastig a deflir i ffwrdd yn gorffen ar y tipiau sbwriel ac yn gollwng rhagor o nwyon niweidiol i'r awyr.

(Ffynhonnell: Cyfeillion y ddaear)

Mae ôl troed carbon yn mesur faint o CO₂ y byddwn yn ei allyrru i'r amgylchedd – lleia'i gyd yr ôl troed, y gorau ydyw i'r blaned.

Mae bron popeth y byddwn yn ei gynhyrchu yn creu ôl troed carbon – hyd yn oed creision! Mae un cwmni creision enwog wedi amcangyfrif bod ôl troed pecyn o'i greision caws a winwns yn 75gr.

A wyddech chi bod ffonau symudol yn cynnwys cemegau niweidiol sydd yn medru gollwng a llygru'r pridd os na fyddwch yn cael gwared arny'n nhw'n ddiogel?

A wyddech chi y gallai eich teledu chi, trwy ei adael ar 'standby' allyrru hyd at 20kg o CO₂ y flwyddyn?

Y 3 eco-A – arbed ar beth a brynwch, aildefnyddio beth yr ydych wedi ei brynu ac ailgylchu mwy.

Gall can sy'n cael ei hailgylchu heddiw gael ei thro'i'n gan newydd a bod yn ôl ar y silff yn barod i'w gwerthu eto mewn dim ond chwech wythnos!

(Ffynhonnell : thinkcans.com)

Mae llawer o elusennau yn ailgylchu ffonau symudol, cetr argraffu a chyfrifiaduron er mwyn codi arian. Mae ailgylchu ffôn trwy Cymorth Cristnogol yn codi £3.00 sy'n ddigon i anfon plentyn i'r ysgol am ddau fis yn India. Beth am ddechrau casgliad yn eich ysgol?

Ysgrifennwch eich ffaith newid hinsawdd eich hun yma.

